## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
## Public Accounts Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

14 Ionawr 2015

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i werth am arian buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd**

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i werth am arian o ran cynnal a chadw a gwella rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Er mwyn helpu gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y materion a ganlyn.

- A yw dulliau Llywodraeth Cymru o roi prosiectau mawr ar waith i wella cefnffyrdd yn sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys:
    - Pa mor effeithiol yw dulliau Llywodraeth Cymru o gynllunio a phrisio cynlluniau;
    - Sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi prosiectau ar waith ac yn eu gwerthuso;
    - Sut y gallai wella'r modd y mae'n cynllunio prosiectau ac yn eu rhoi ar waith.
- I ba raddau y mae'r dulliau presennol o gynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith drwy'r Asiantau Cefnffyrdd wedi sicrhau gwerth am arian;
- Sut y gellir gwella swyddogaethau'r Asiantau Cefnffyrdd o ran cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd, a hynny yng nghyd-destun adolygiad Llywodraeth Cymru o'r asiantau hyn.


Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts Committee
Ffôn / Tel : 0300 200 6343
Ebost / Email : SeneddPAC@Assembly.Wales

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu Saesneg, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y materion uchod. Gweler y canllawiau ar gyfer y rhai sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig, (**nid** ar ffurf dogfen PDF, yn ddelfrydol) i SeneddPAC@Cynulliad.Cymru

Fel arall, gallwch ysgrifennu at yr isod:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **dydd Mawrth, 13 Chwefror 2013**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliad.cymru/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, gallwch ofyn i'r Clerc anfon copi caled o'r polisi atoch (0300 200 6565).

Yn gywir



**Darren Millar AC**
Cadeirydd